

ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Trwyddedu
DYDDIAD:	23 Mehefin 2021
SWYDDOG ARWEINIOL:	Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad
SWYDDOG CYSWLLT:	Uwch Swyddog Technegol (Trwyddedu) 01824 706451
TESTUN:	Adolygu'r Polisi Masnachu ar y Stryd

1.0 PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am y sefyllfa bresennol o ran adolygiad o'r polisi masnachu ar y stryd yn Sir Ddinbych.

2.0 CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2.1 Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i ddrafftio Polisi Masnachu ar y Stryd ac mae swyddogion yn ceisio barn yr Aelodau am y polisi drafft diwygiedig (ynghlwm yn Atodiad A). Mae'r fersiwn hon wedi cael ei llunio gyda'r bwriad o ddarparu polisi sydd yn addas i'r diben ac sy'n mynd i'r afael â phryderon pawb allai gael eu heffeithio.

3.0 PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD

- 3.1 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 Rhan III, Atodlen 4, Masnachu ar y Stryd.

4.0 GWYBODAETH GEFNDIR

- 4.1 Mae Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 yn diffinio masnachu ar y stryd fel gwerthu, gosod neu gynnig pethau ar werth ar y stryd. Fe ail fabwysiadwyd y Rhan perthnasol o'r Ddeddf gan y Cyngor ym mis Mehefin 2002. Mae'r diffiniad o "stryd" yn eang ac mae'n cynnwys unrhyw ffordd, troedffordd, traeth neu unrhyw ardal arall y mae gan y cyhoedd fynediad iddo heb orfod talu, a meysydd gwasanaeth a ddiffinnir o dan Adran 329 Deddf Priffyrdd 1980.
- 4.2 Mae angen i unrhyw un sydd yn dymuno masnachu ar strydoedd yn y Sir wneud cais am Ganiatâd gan yr Awdurdod Trwyddedu. Y rheswm am

hyn yw bod yr Awdurdod Trwyddedu wedi dynodi pob stryd yn Sir Ddinbych fel “Strydoedd â Chaniatâd” at ddibenion masnachu ar y stryd.

4.3 Mae un eithriad i hyn, sef bod y strydoedd yng nghanol trefi Y Rhyl a Phrestatyn wedi’u dynodi yn “Strydoedd Gwaharddedig lle na chaniateir i unrhyw fasnachu digwydd (Atodiad 1 y Polisi Drafft.)

4.4 Yn 2015, rhoddodd yr Aelodau awdurdod i swyddogion i adolygu'r gyfundrefn masnachu ar y stryd bresennol er mwyn mynd i'r afael ag anawsterau gyda'r rheoliadau presennol ac awgrymu gwelliannau i reoleiddio a chefnogi masnachu ar strydoedd y Sir yn well.

4.5 Cafodd polisi drafft ei ystyried gan y Pwyllgor Trwyddedu ym mis Rhagfyr 2016, a chytunwyd cynnal ymgynghoriad cychwynnol gyda Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned ynghyd ag adrannau mewnol y Cyngor.

4.6 Cafodd sylwadau o'r ymgynghoriad cychwynnol eu cynnwys mewn Polisi Masnachu ar y Stryd drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau.

4.7 Fel y soniwyd uchod, ni chafwyd unrhyw sylwadau yn yr ymgynghoriad cyhoeddus. Serch hynny, derbyniodd swyddogion sylwadau gan unigolion a thimau eraill yn y Cyngor yn ddiweddarach, yn cynnwys Aelodau, a daethpwyd i'r casgliad bod angen rhagor o waith cyn y gellir cyflwyno Polisi Masnachu ar y Stryd sy'n addas i'r diben i'r Pwyllgor i'w ystyried.

4.8 Mae llawer wedi cael ei newid ers y penderfyniad gwreiddiol i adolygu'r polisi, megis yr heriau y mae ein Strydoedd Mawr wedi'u hwynebu ac sydd wedi gwaethygu yn sgil argyfwng Covid-19, a bydd Aelodau yn ystyriol o hyn tra'n ystyried y polisi diwygiedig newydd.

4.9 Os bydd Aelodau yn awdurdodi bod ymgynghoriad llawn yn cael ei gynnal ar ôl archwilio'r polisi sydd ynghlwm, mae swyddogion yn cynnig ein bod yn cynnal trafodaethau gyda grwpiau busnes ac arbenigwyr cyfathrebu o fewn y Cyngor ar yr un pryd. Bydd hyn yn galluogi i ni ddeall anghenion y rhai allai gael eu heffeithio gan y polisi, yn benodol masnachwyr “sefydlog”, grwpiau busnes, cymunedau a thimau ehangach y Cyngor, e.e. Gwasanaethau Cynllunio, Priffyrdd a'r Amgylchedd, ac ati.

SYLWADAU'R SWYDDOGION

5.0

5.1 Bydd yr ymgynghoriad a'r ymgysylltu a amlinellir yn 4.9 uchod yn galluogi swyddogion i wneud unrhyw addasiadau angenrheidiol i'r polisi cyn ei gyflwyno i Bwyllgor Trwyddedu yn y dyfodol.

5.2 Yn rhan o ddatblygiad parhaus y polisi, mae'n bosibl y bydd Aelodau yn teimlo ei bod hi'n briodol i sefydlu "is-grŵp" er mwyn trafod eitemau penodol sydd yn y polisi megis:

- Sut all y polisi gefnogi siopau parhaol a masnachwyr stryd fel ei gilydd orau, gan ystyried tirlun ein Strydoedd Mawr a'n hardaloedd manwerthu sydd yn newid.
- Pa unai oes angen unrhyw newidiadau i'r system bresennol o Strydoedd Gwaharddedig yn Y Rhyl a Phrestatyn (Atodiad B).

ARGYMHELLION

6.0

6.1 Bod yr Aelodau yn ystyried y polisi yn Atodiad A, ac os yw'n briodol, yn rhoi cymeradwyaeth ar gyfer ymgynghoriad.

6.2

Ystyried yr argymhelliad i ffurfio "is-grŵp" ac a ydynt yn dymuno enwebu Aelod o'r Pwyllgor i drafod gyda swyddogion ar y mater yma.

